

# Defnyddio rhifau: Sut y defnyddir data i greu ystadegau

## Canllaw i athrawon

Mae'r ddogfen ganllaw athrawon hon wedi'i chynllunio i gynnig cymorth wrth ddefnyddio'r pum pecyn cymorth 'Defnyddio rhifau' gyda myfyrwyr.



# Cynnwys

## Trosolwg

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)
- Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth
- Cynnwys yr adnodd

## Pecynnau cymorth Defnyddio rhifau

- Bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- Chwyddiant
- Cyfrifiad
- Iechyd a llesiant
- Busnes, diwydiant a masnach

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

- Mathemateg
- Cymdeithaseg
- Daeryddiaeth
- Busnes

## Geirfa

# Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Rydym yn gynhyrchydd ystadegau swyddogol annibynnol ac yn sefydliad ystadegol cenedlaethol cydnabyddedig y DU. Rydym yn casglu, dadansoddi a lledaenu ystadegau am economi, cymdeithas a phoblogaeth y DU.

Mae'r llywodraeth, elusennau, grwpiau cymunedol, busnesau ac unigolion yn defnyddio'r ystadegau hyn i wneud penderfyniadau gwybodus ar faterion pwysig sy'n effeithio ar bob un ohonom. Gallai hyn gynnwys popeth o ofal iechyd a lleoedd ysgol i faterion amgylcheddol.



# Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth

Rydym wedi dylunio'r pecynnau cymorth i amlygu pwysigrwydd ystadegau mewn bywyd pob dydd ac i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio a holi'r data. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyflwyniad i'r prif egwyddorion mewn data ac ystadegau y dylid eu cyflwyno i fyfyrwyr cyn dechrau ar y pum pecyn cymorth.

Mae'r pecynnau cymorth hyn yn ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr UG a Safon Uwch daearyddiaeth, mathemateg, busnes a chymdeithaseg. Mae pob pecyn cymorth yn dod â syniadau prosiect sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm i fyfyrwyr ddefnyddio data'r SYG y byd go iawn.

Rydym yn argymhell defnyddio un wers i gyflwyno myfyrwyr i 'egwyddorion data ac ystadegau' gan

ddefnyddio'r PowerPoint cysylltiedig. Bydd hyn yn rhoi amser iddynt ymgysylltu â'r ystod o offer a setiau data, cyn symud ymlaen i bob pecyn cymorth.

Mae pob pecyn cymorth yn cynnwys 'briff prosiect' sy'n ymwneud â daearyddiaeth, mathemateg, busnes a chymdeithaseg. Rydym wedi cynllunio'r briffiau i fod yn fan cychwyn i fyfyrwyr greu eu prosiect eu hunain a arweinir gan ymholiad, gan ddefnyddio'r offer a'r setiau data a ddarperir ynghyd ag ymchwil annibynnol. Gall myfyrwyr gyflawni eu prosiect gan ddefnyddio cyfuniad o amser dosbarth gan fod y briffiau wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg ac i gyd-fynd â'r amser dosbarth sydd ar gael i chi. Gellir defnyddio pob briff hefyd yn waith cartref neu ar gyfer prosiect byr, neu ei ehangu a'i addasu ar gyfer gwaith cwrs neu EPQ.

# Cynnwys yr adnodd

## Cyflwyniad i'r prif egwyddorion mewn data ac ystadegau

Bydd y ddogfen hon yn cyflwyno myfyrwyr i rai termau cyffredin a chysyniadau ystadegol, gydag enghreifftiau byd go iawn gan y SYG.

1. Casglu data a gwneud ystadegau
2. Dylunio sampl ac amcangyfrif
3. Cyfres amser
4. Mynegrifau
5. Mesur ansicrwydd
6. Cyfathrebu data ac ystadegau

## Lawrlwythiadau

PowerPoint: Defnyddio rhifau: Sut y defnyddir data i greu ystadegau



# Defnyddio rhifau: Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae'r pwnc hwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r cysyniad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan ystyried pam a sut y caiff ei fesur.

Dechreuwch trwy weithio trwy'r PowerPoint gyda myfyrwyr i archwilio'r pwnc, cyn rhannu'r pecyn cymorth. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys tri briff prosiect gyda syniadau ar sut y gall myfyrwyr ddefnyddio'r [offeryn archwilio'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau \(yn Saesneg\)](#) a data byd go iawn o [set ddata'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion \(yn Saesneg\)](#). Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i archwilio data am enillion er mwyn gweld tueddiadau, pethau annormal a phatrymau yn y data. Yn y pen draw, byddant yn dod i ddeall y gwahaniaethau mewn cyflog rhwng y rhywiau yn y DU.

## Lawrlwythiadau

PowerPoint: Defnyddio rhifau: Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

PDF: Pecyn cymorth myfyrwyr

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys:

- Briff prosiect mathemateg: Dadansoddi data a delweddu
- Briff prosiect daearyddiaeth: Gwahaniaethau daearyddol
- Briff prosiect cymdeithaseg: Agweddau a chredoau



# Defnyddio rhifau: Chwyddiant

Mae'r pwnc hwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r cysyniad o chwyddiant, ei achosion, ei effeithiau, ei fesur a'i oblygiadau.

Dechreuwch trwy weithio trwy'r PowerPoint gyda myfyrwyr i archwilio'r pwnc, cyn rhannu'r pecyn cymorth. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys tri briff prosiect gyda syniadau ar sut y gall myfyrwyr ddefnyddio'r [offeryn Cymharu Prisiau Siopa \(yn Saesneg\)](#) a data byd go iawn o'r [Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys set ddata costau tai perchenfeddianwyr \(CPIH\) \(yn Saesneg\)](#). Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i archwilio data am brisiau a chwyddiant ac archwilio goblygiadau chwyddiant i ddefnyddwyr, busnesau a llunwyr polisi.

## Lawrlwythiadau

PowerPoint: Defnyddio rhifau: Chwyddiant

PDF: Pecyn cymorth myfyrwyr

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys:

- Briff prosiect busnes: Mesur chwyddiant
- Briff prosiect mathemateg: Dadansoddi data chwyddiant
- Briff prosiect cymdeithaseg: Effaith chwyddiant



# Defnyddio rhifau: Cyfrifiad

Mae'r pwnc hwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r cyfrifiad a'i arwyddocâd o ran deall deinameg poblogaeth.

Dechreuwch trwy weithio trwy'r PowerPoint gyda myfyrwyr i archwilio'r pwnc, cyn rhannu'r pecyn cymorth. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys tri briff prosiect gyda syniadau ar sut y gall myfyrwyr ddefnyddio [data o'r cyfrifiad \(yn Saesneg\)](#) a'r [offeryn Creu proffil ardal penodol \(yn Saesneg\)](#). Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i:

- ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y gwneir casgliadau ystadegol am boblogaethau
- cymharu a chyferbynnu gwahanol leoedd neu newid yn yr un lle dros amser
- ystyried rôl data cyfrifiad wrth wneud penderfyniadau

## Lawrlwythiadau

PowerPoint: Defnyddio rhifau: Cyfrifiad

PDF: Pecyn cymorth myfyrwyr

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys:

- Briff prosiect busnes: Ymchwil marchnad
- Briff prosiect mathemateg: Cyfrifiad o'i gymharu â samplau
- Briff prosiect cymdeithaseg: Gwneud cymariaethau





# Defnyddio rhifau: Iechyd a Llesiant

Mae'r pwnc hwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r Mynegai Iechyd a'r defnydd posibl o fesur Iechyd a Llesiant.

Dechreuwch trwy weithio trwy'r PowerPoint gyda myfyrwyr i archwilio'r pwnc, cyn rhannu'r pecyn cymorth. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys tri briff prosiect gyda syniadau ar sut y gall myfyrwyr ddefnyddio [data o'r Mynegai Iechyd \(yn Saesneg\)](#) a [chyfrifiannell y Mynegai Iechyd \(yn Saesneg\)](#). Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i ddadansoddi a dehongli tueddiadau a phatrymau yn yr ardal leol neu ar draws rhanbarthau gwahanol, ac ystyried arwyddocâd Iechyd yn ddangosydd.

## Lawrlwythiadau

PowerPoint: Defnyddio rhifau: Iechyd a Llesiant

PDF: Pecyn cymorth myfyrwyr

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys:

- Briff prosiect busnes: Defnyddio Iechyd fel dangosydd
- Briff prosiect daearyddiaeth: Gwahaniaethau Iechyd
- Briff prosiect cymdeithaseg: Mesur Iechyd



# Defnyddio rhifau: Busnes, diwydiant a masnach

Mae'r pwnc hwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r prif ddangosyddion economaidd ac yn galluogi myfyrwyr i archwilio tueddiadau yn economi'r DU.

Dechreuwch trwy weithio trwy'r PowerPoint gyda myfyrwyr i archwilio'r pwnc, cyn rhannu'r pecyn cymorth. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys tri briff prosiect gyda syniadau ar gyfer sut y gall myfyrwyr ddefnyddio [data am fusnes, diwydiant a masnach](#) a'r offeryn [Archwiliwr masnach y byd \(yn Saesneg\)](#). Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i ddadansoddi a dehongli tueddiadau a phatrymau o fewn economi'r DU, ac i ddeall y berthynas economaidd rhwng y DU a gwledydd eraill.

## Lawrlwythiadau

PowerPoint: Defnyddio rhifau: Busnes, diwydiant a masnach

PDF: Pecyn cymorth myfyrwyr

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys:

- Briff prosiect busnes: Tueddiadau defnyddwyr
- Briff prosiect daearyddiaeth: Cysylltiadau rhyngwladol
- Briff prosiect cymdeithaseg: Datblygiad byd-eang



# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Mathemateg

	AQA	EdExcel	OCR	CBAC
<p><b>Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: Dadansoddi data a delweddu</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn defnyddio offer ystadegol i ddadansoddi'r data a chreu cynrychioliadau gweledol fel histogramau neu arddangosiadau plot blwch.</p>	<p>3.12 L Cyflwyno a dehongli data</p> <p>3.19 Defnyddio data mewn ystadegau</p>	<p>Adran A: Ystadegau</p> <p>Pwnc 1 - Samplu ystadegol</p> <p>Pwnc 2 – Cyflwyno a dehongli data</p>	<p>2.C. Defnydd o Dechnoleg</p> <p>2. Ystadegau 2.01 Samplu ystadegol 2.02 Cyflwyno a dehongli data</p>	<p>1.5 Persbectif Cymreig</p> <p>Defnyddio data mewn ystadegau</p> <p>2.2.2 Cyflwyno a dehongli data</p>
<p><b>Chwyddiant: Dadansoddiad Data Chwyddiant</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn edrych ar ddata chwyddiant hanesyddol yn y DU ac yn creu graffiau a siartiau i ddelweddu'r cyfraddau chwyddiant dros amser.</p>	<p>3.12 L Cyflwyno a dehongli data</p> <p>3.19 Defnyddio data mewn ystadegau</p>	<p>Adran A: Ystadegau</p> <p>Pwnc 1 - Samplu ystadegol</p> <p>Pwnc 2 – Cyflwyno a dehongli data</p>	<p>2.C. Defnydd o Dechnoleg</p> <p>2. Ystadegau 2.01 Samplu ystadegol 2.02 Cyflwyno a dehongli data</p>	<p>1.5 Persbectif Cymreig</p> <p>Defnyddio data mewn ystadegau</p> <p>2.2.2 Cyflwyno a dehongli data</p>
<p><b>Cyfrifiad: Cyfrifiad o'i gymharu â samplau</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn edrych ar ddata cyfrifiad a samplu i ddeall sut y gwneir casgliadau ystadegol am boblogaethau.</p>	<p>3.12 L Cyflwyno a dehongli data</p> <p>3.19 Defnyddio data mewn ystadegau</p>	<p>Adran A: Ystadegau</p> <p>Pwnc 1 - Samplu ystadegol</p> <p>Pwnc 2 – Cyflwyno a dehongli data</p>	<p>2.C. Defnydd o Dechnoleg</p> <p>2. Ystadegau 2.01 Samplu ystadegol 2.02 Cyflwyno a dehongli data</p>	<p>1.5 Persbectif Cymreig</p> <p>Defnyddio data mewn ystadegau</p> <p>2.2.2 Cyflwyno a dehongli data</p>

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Cymdeithaseg

	AQA	EdExcel	OCR	CBAC
<p><b>Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: Agweddau a chredoau</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn dylunio ac yn cynnal arolwg i gasglu data ac ymchwilio i effaith canfyddiadau cymdeithasol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.</p>	<p>UG</p> <p>3.2.1 Dulliau Ymchwil</p> <p>3.2.2.4 Gwaith, Tlodi a Llesiant</p> <p>A2</p> <p>4.1.3 Damcaniaethau a Dulliau</p> <p>4.2.4 Gwaith, Tlodi a Llesiant</p> <p>4.2.8 Haenau a Gwahaniaethu</p>	amh	2c. Ymchwilio a deall anghydraddoldebau cymdeithasol: (02) Adran A: Dulliau ymchwil ac ymchwilio i anghydraddoldebau cymdeithasol, Adran B: Deall anghydraddoldebau cymdeithasol	<p>2.1 Unedau UG: Uned 2: Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymchwilio Cymdeithasegol</p> <p>Uned A2 4: Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol</p>
<p><b>Chwyddiant: Effaith Chwyddiant</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn ystyried effeithiau cymdeithasol chwyddiant, gan gynnwys ei effaith ar gyflogaeth, tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol.</p>	<p>UG</p> <p>3.2.1 Dulliau Ymchwil</p> <p>3.2.2.2 Teuluoedd ac Aelwydydd</p> <p>A2</p> <p>4.1.3 Damcaniaethau a Dulliau</p> <p>4.2.2 Teuluoedd ac Aelwydydd</p> <p>4.2.5 Credoau mewn Cymdeithas</p> <p>4.2.8 Haenau a Gwahaniaethu</p>	amh	2c. Ymchwilio a deall anghydraddoldebau cymdeithasol: (02) Adran A: Dulliau ymchwil ac ymchwilio i anghydraddoldebau cymdeithasol, Adran B: Deall anghydraddoldebau cymdeithasol	<p>2.1 Unedau UG: Uned 2: Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymchwilio Cymdeithasegol</p> <p>Uned A2 4: Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol</p>

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Cymdeithaseg

	AQA	EdExcel	OCR	CBAC
<p><b>Cyfrifiad: Gwneud cymariaethau</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn archwilio data cyfrifiad hanesyddol a chyfredol i gymharu a chyferbynnu gwahanol leoedd neu newid yn yr un lle dros amser.</p>	<p>UG</p> <p>3.2.1 Dulliau Ymchwil</p> <p>3.2.2.2 Teuluoedd ac Aelwydydd</p> <p>A2</p> <p>4.1.3 Damcaniaethau a Dulliau</p> <p>4.2.2 Teuluoedd ac Aelwydydd</p> <p>4.2.5 Credoau mewn Cymdeithas</p> <p>4.2.8 Haenau a Gwahaniaethu</p>	<p>amh</p>	<p>2c. Cymdeithasoli, diwylliant a hunaniaeth: (01) Adran B Opsiwn 1: Teuluoedd a pherthnasoedd</p> <p>2c. Ymchwilio a deall anghydraddoldebau cymdeithasol: (02) Adran A: Dulliau ymchwil ac ymchwilio i anghydraddoldebau cymdeithasol, Adran B: Deall anghydraddoldebau cymdeithasol</p> <p>2c. Dadleuon mewn cymdeithas gyfoes: (03): Adran B Opsiwn 2: Addysg, Adran B Opsiwn 3: Crefydd, cred a ffydd</p>	<p>2.1 Unedau UG: Uned 1: Caffael Diwylliant, Adran B Teuluoedd ac Aelwydydd</p> <p>Uned A2 4: Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol</p> <p>2.1 Unedau UG: Uned 2: Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymchwilio Cymdeithasegol</p>
<p><b>Iechyd a llesiant: Mesur iechyd</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn dylunio mesur mynegai iechyd cynhwysfawr sy'n adlewyrchu penderfynyddion cymdeithasol amrywiol iechyd.</p>	<p>UG</p> <p>3.2.1 Dulliau Ymchwil</p> <p>3.2.2.3 Iechyd</p> <p>A2</p> <p>4.1.3 Damcaniaethau a Dulliau</p> <p>4.2.3 Iechyd</p> <p>4.2.8 Haenau a Gwahaniaethu</p>	<p>amh</p>	<p>2c. Ymchwilio a deall anghydraddoldebau cymdeithasol: (02) Adran A: Dulliau ymchwil ac ymchwilio i anghydraddoldebau cymdeithasol, Adran B: Deall anghydraddoldebau cymdeithasol</p>	<p>Unedau UG: Uned 2: Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymchwilio Cymdeithasegol</p> <p>Uned A2 4: Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol</p> <p>Uned A2 3: Grym a Rheolaeth: Iechyd ac anabled</p>

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Cymdeithaseg

	AQA	EdExcel	OCR	CBAC
<p><b>Busnes, diwydiant a masnach:</b> <b>Datblygiad byd-eang</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn ymchwilio i sut mae perthnasoedd economaidd rhwng y DU a gwledydd eraill yn dylanwadu ar ddatblygiad byd-eang.</p>	<p>UG</p> <p>3.2.1 Dulliau Ymchwilio</p> <p>A2</p> <p>4.1.3 Damcaniaethau a Dulliau</p> <p>4.2.6 Datblygiad Byd-eang</p>	<p>amh</p>	<p>2c. Dadleuon yn y gymdeithas gyfoes: (03): Adran A: Globaleiddio a'r byd cymdeithasol digidol</p>	<p>2.1 Unedau UG: Uned 2: Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymchwilio Cymdeithasegol</p> <p>Uned A2 3: Grym a Rheolaeth: Cymdeithaseg Fyd-eang</p>

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Daearyddiaeth

	AQA	EdExcel	OCR	CBAC
<p><b>Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: Gwahaniaethau daearyddol</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn ymchwilio ac yn dadansoddi amrywiadau rhanbarthol mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn y Deyrnas Unedig.</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>3.2 Lleoedd Newidiol</p> <p>3.2.2 Lleoedd Newidiol</p> <p>3.2.2.3 Sgiliau meintiol ac ansoddol</p> <p>3.2.2.4 Astudiaethau lleoedd</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>Maes astudio 2: Lleoedd Dynamig</p> <p>Pwnc 4: Llunio Lleoedd</p>	<p>2c. Rhyngweithiadau dynol</p> <p>Pwnc 2.1 – Mannau Newidiol; Creu Lleoedd</p> <p>2e. Sgiliau daearyddol a gwaith maes</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>UG Uned 2: Lleoedd Newidiol</p> <p>2.1.1 Lle newidiol; lleoedd newidiol</p> <p>2.1.3 Newidiadau dros amser mewn nodweddion economaidd lleoedd</p> <p>Adran B: Ymchwiliad Gwaith Maes mewn Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol</p>
<p><b>Cyfrifiad: Gwneud cymariaethau</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn archwilio data cyfrifiad hanesyddol a chyfredol i gymharu a chyferbynnu gwahanol leoedd neu newid yn yr un lle dros amser.</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>3.2 Lleoedd newidiol</p> <p>3.2.2 Lleoedd newidiol</p> <p>3.2.2.3 Sgiliau meintiol ac ansoddol</p> <p>3.2.2.4 Astudiaethau lleoedd</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>Maes astudio 2: Lleoedd Dynamig</p> <p>Pwnc 4: Llunio Lleoedd</p>	<p>2c. Rhyngweithiadau dynol</p> <p>Pwnc 2.1 – Mannau Newidiol; Creu Lleoedd</p> <p>2e. Sgiliau daearyddol a gwaith maes</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>UG Uned 2: Lleoedd Newidiol</p> <p>2.1.1 Lle newidiol; lleoedd newidiol</p> <p>Adran B: Ymchwiliad Gwaith Maes mewn Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol</p>

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Daearyddiaeth

	AQA	EdExcel	OCR	CBAC
<p><b>Iechyd a llesiant: Gwahaniaethau iechyd</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn mapio gwahaniaethau iechyd o fewn ardal leol neu ar draws rhanbarthau gwahanol.</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>3.2 Lleoedd newidiol</p> <p>3.2.2 Lleoedd newidiol</p> <p>3.2.2.3 Sgiliau meintiol ac ansoddol</p> <p>3.2.2.4 Astudiaethau lleoedd</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>Maes astudio 2: Lleoedd Dynamig</p> <p>Pwnc 4: Llunio Lleoedd</p>	<p>2c. Rhyngweithiadau dynol</p> <p>Pwnc 2.1 – Mannau Newidiol; Creu Lleoedd</p> <p>2e. Sgiliau daearyddol a gwaith maes</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p> <p>UG Uned 2: Lleoedd Newidiol</p> <p>2.1.1 Lle newidiol; lleoedd newidiol</p> <p>Adran B: Ymchwiliad Gwaith Maes mewn Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol</p>
<p><b>Busnes, diwydiant a masnach: Cysylltiadau rhyngwladol</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn edrych ar berthnasoedd economaidd rhwng y DU a gwledydd eraill trwy lens data masnach.</p>	<p>3.2.1.3 Masnach ryngwladol a mynediad i farchnadoedd</p> <p>3.2.1.4 Llywodraethu byd-eang</p>	<p>Maes astudio 2: Lleoedd Dynamig</p> <p>Pwnc 3: Globaleiddio</p>	<p>Pwnc 2.2 – Cysylltiadau Byd-eang</p> <p>2.2.1 Systemau Byd-eang: Opsiwn A – Masnach yn y Byd Cyfoes</p>	<p>Sgiliau daearyddol</p>



# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Busnes

	AQA	EdExcel	OCR	CBAC
<p><b>Chwyddiant: Mesur chwyddiant</b> Mae myfyrwyr yn archwilio gwahanol ffyrdd o fesur chwyddiant a'u goblygiadau i ddefnyddwyr, busnesau a llunwyr polisïau.</p>	<p>3.1.3 Deall bod busnesau'n gweithredu o fewn amgylchedd allanol 3.7 Dadansoddi sefyllfa strategol busnes 3.7.5 Dadansoddi'r amgylchedd allanol i asesu cyfleoedd a bygythiadau: newid economaidd</p>	<p>Thema 2: Rheoli gweithgareddau busnes 2.2 Cynllunio ariannol 2.5 Dylanwadau allanol</p>	<p>Amcanion a strategaeth busnes: Cynllunio wrth gefn Dylanwadau allanol: y farchnad, maint y farchnad a thwf; grymoedd y farchnad; Ffactorau Economaidd</p>	<p>UG Uned 1 Cyfleoedd Busnes: Marchnadoedd, Cyllid Busnes A2 Uned 4 Busnes mewn Byd sy'n Newid: Ffactorau PEST</p>
<p><b>Cyfrifiad: Ymchwil marchnata</b> Mae myfyrwyr yn gweithredu fel perchennog busnes ac yn gwneud argymhellion ar gyfer ehangu, cynhyrchion newydd, marchnata neu gynulleidfaoedd targed.</p>	<p>3.1.3 Deall bod busnesau'n gweithredu o fewn amgylchedd allanol 3.2.2 Deall gwneud penderfyniadau rheoli 3.3 Rheoli marchnata: 3.3.2 Deall marchnadoedd a chwsmeriaid, 3.3.3 Gwneud penderfyniadau marchnata: segmentu, targedu, lleoli</p>	<p>Thema 1: Marchnata a phobl 1.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid, 1.2 Marchnad</p>	<p>Dylanwadau allanol: y farchnad, maint y farchnad a thwf Newid: Marchnata Rheoli Newid o fewn amgylchedd busnes:</p>	<p>UG Uned 1 Cyfleoedd Busnes: Cynlluniau busnes, Marchnadoedd, Ymchwil marchnata Uned 2 Swyddogaethau Busnes: Marchnata A2 Uned 3 Dadansoddiad Busnes a Strategaeth Fusnes: Dadansoddi data: Dadansoddiad marchnad</p>

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Busnes

	AQA	EdExcel	OCR	CBAC
<p><b>Iechyd a llesiant: Defnyddio iechyd fel dangosydd</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn archwilio arwyddocâd iechyd fel dangosydd mewn prosesau gwneud penderfyniadau busnes ac yn ystyried sut y gall busnesau integreiddio metrigau cysylltiedig ag iechyd yn eu gweithrediadau.</p>	<p>3.2.2 Deall gwneud penderfyniadau rheoli</p> <p>3.4.2 Dadansoddi perfformiad gweithredol,</p> <p>3.4.3 Gwneud penderfyniadau gweithredol i wella perfformiad: cynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant</p> <p>3.6 Rheoli adnoddau dynol</p>	<p>Thema 1: Marchnata a phobl</p> <p>1.4 Rheoli pobl</p> <p>Thema 2: Rheoli gweithgareddau busnes</p> <p>Thema 3: Penderfyniadau busnes a strategaeth</p> <p>3.4 Dylanwadau ar benderfyniadau busnes</p> <p>3.4.4 Moeseg busnes</p>	<p>Amcanion a strategaeth busnes: Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol</p>	<p>UG</p> <p>Uned 2 Swyddogaethau Busnes: Pobl mewn busnesau (adnoddau dynol) Rheoli gweithrediadau.</p> <p>A2</p> <p>Uned 4 Busnes mewn Byd sy'n Newid: Ffactorau moesegol, cyfreithiol ac amgylcheddol</p>
<p><b>Busnes, diwydiant a masnach: Tueddiadau defnyddwyr</b></p> <p>Mae myfyrwyr yn ymchwilio i dueddiadau defnyddwyr ac yn cymharu manteision economaidd defnyddio adnoddau Prydeinig yn erbyn cymryd rhan mewn masnach ryngwladol.</p>	<p>3.1.3 Deall bod busnesau'n gweithredu o fewn amgylchedd allanol</p> <p>3.3 Rheoli marchnata:</p> <p>3.3.2 Deall marchnadoedd a chwsmeriaid</p>	<p>Thema 1: Marchnata a phobl</p> <p>1.1.1 Y farchnad</p> <p>Thema 4: Busnes byd-eang</p> <p>4.1 Globaleiddio</p> <p>4.2 Marchnadoedd byd-eang ac ehangu busnes</p> <p>4.4 Diwydiannau a chwmnïau byd-eang (corfforaethau rhyngwladol)</p>	<p>Amcanion a strategaeth busnes: Cynllun busnes: Gwneud penderfyniadau Dylanwadau allanol: y farchnad, maint y farchnad a thwf; Cyd-destun Byd-eang; Masnach Ryngwladol</p>	<p>A2</p> <p>Uned 4 Busnes mewn Byd sy'n Newid: Masnach ryngwladol, Globaleiddio, Yr Undeb Ewropeaidd</p>

# Geirfa o dermau pwysig

## Anomaledd

Mae anomaledd, yng nghyd-destun dadansoddi data, yn cyfeirio at bwynt data neu arsylwad sy'n gwyro'n sylweddol oddi wrth y patrwm neu norm disgwylidig mewn set ddata. Gall anomaleddau fod yn arwydd o wallau wrth gasglu data, mesur neu ddigwyddiadau anarferol gwirioneddol.

## Cyfrifiad

Mae'r cyfrifiad yn gyfrif o bob aelwyd yng Nghymru a Lloegr sydd wedi'i gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol bob 10 mlynedd.

## Theorem Terfyn Canolog

Yn ôl Theorem y Terfyn Canolog, ni waeth beth fo siâp y boblogaeth, bydd y dosbarthiad samplu cymedr bob amser yn cael ei ddosbarthu'n normal, cyn belled â bod maint y sampl yn ddigon mawr.

## Sampl Clwstwr

Dull samplu lle rhennir y boblogaeth yn grwpiau neu glystyrau, ac wedyn dewisir clystyrau ar hap. Mae pob unigolyn yn y clystyrau dethol wedi eu cynnwys yn y sampl. Mae'r dull hwn yn aml yn fwy ymarferol a chost-effeithiol pan fo'r boblogaeth wedi'i gwasgaru'n ddaearyddol.

## Sampl Cyfleustra

Mae sampl cyfleustra yn ddull samplu heb fod ar hap lle mae unigolion neu eitemau'n cael eu dewis ar sail eu hargaeledd a'u hygyrchedd i'r ymchwilydd. Mae'r dull hwn yn gyflym ac yn hawdd ond gall arwain at ganlyniadau rhagfarnllyd oherwydd efallai na fydd yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan yn gywir.

## Mesur Cyfansawdd

Cyfuno newidynnau unigol sy'n gysylltiedig â chysyniad neu luniad penodol sydd o ddiddordeb.

## Cydberthynas

Mesur o gryfder a chyfeiriad y berthynas linellol rhwng dau newidyn.

## Data

Ffeithiau crai, rhifau neu symbolau sy'n cynrychioli meintiau, symbolau neu fesuriadau. Gall data fod yn ansoddol, sy'n ddisgrifiadol, neu'n feintiol, sy'n rhifiadol.

# Geirfa o dermau pwysig

## Demograffig

Mae demograffig yn cyfeirio at ddata ystadegol sy'n ymwneud â'r boblogaeth a grwpiau penodol o'i mewn, megis oedran, rhyw, incwm, addysg ac ethnigrwydd. Defnyddir gwybodaeth ddemograffig yn aml ar gyfer ymchwil marchnad, dadansoddi cymdeithasol a llunio polisi.

## Ystadegau Disgrifiadol

Dulliau a ddefnyddir i grynhoi a disgrifio nodweddion set ddata, megis cymedr, canolrif, modd, amrediad, amrywiant a gwyriad safonol.

## Dosbarthiad

Patrwm amrywiad mewn set ddata, a gynrychiolir yn aml ar ffurf graffiau megis histogramau, arddangosiadau plot blwch neu ddsraniadau tebygolrwydd.

## Mynegai

Yng nghyd-destun ystadegau, mae mynegai yn cyfeirio at fesur cyfansawdd sy'n cyfuno newidynnau lluosog yn un gwerth rhifiadol i gynrychioli cysyniad neu ffenomen ehangach. Defnyddir mynegeion yn gyffredin i grynhoi setiau data

cymhleth a hwyluso cymariaethau ar draws gwahanol grwpiau neu dros amser.

## Ffin Cyfeiliornad

Mae'r ffin cyfeiliornad yn fesur o'r ansicrwydd neu'r manwl gywirdeb sy'n gysylltiedig ag ystadegyn sampl. Mae'n nodi'r amrediad y mae'r gwir baramedr poblogaeth yn debygol o fod ynddo. Mae ffin cyfeiliornad lai yn dangos mwy o fanylder yn yr amcangyfrif.

## Dosbarthiad Arferol

Dosbarthiad siâp cloch a nodweddir gan gromlin gymesur, unmodd. Mae llawer o ffenomenau naturiol yn dilyn y dosbarthiad hwn.

## Annormal

Arsylwad sydd bellter annormal oddi wrth werthoedd eraill mewn set ddata.

## Poblogaeth

Y grŵp cyfan o unigolion neu eitemau y mae gan yr ymchwilydd ddiddordeb mewn astudio.

# Geirfa o dermau pwysig

## Hapsampl

Mae hapsampl yn is-set o unigolion neu eitemau a ddewiswyd o set fwy, sef y boblogaeth, yn y fath fodd fel bod gan bob unigolyn neu eitem siawns gyfartal o gael eu dewis. Mae'r dull hwn yn helpu i leihau rhagfarn a sicrhau bod y sampl yn gynrychioliadol o'r boblogaeth.

## Dadansoddiad Atchweliad

Techneg ystadegol a ddefnyddir i fodelu'r berthynas rhwng un neu ragor o newidynnau annibynnol a newidyn dibynnol.

## Sampl

Is-set o'r boblogaeth a ddewiswyd i'w hastudio.

## Rhagfarn Samplu

Mae rhagfarn samplu yn digwydd pan nad yw sampl yn gynrychioliadol o'r boblogaeth oherwydd gwallau systematig yn y broses samplu. Gall hyn arwain at gasgliadau anghywir a chyffredinoli am y boblogaeth.

## Gwall Samplu

Gwall samplu yw'r gwahaniaeth rhwng ystadegyn sampl, megis cymedr neu gyfran y sampl, a'r paramedr poblogaeth cyfatebol. Mae'n digwydd oherwydd mai dim ond is-set o'r boblogaeth gyfan yw sampl ac efallai na fydd yn ei gynrychioli'n berffaith.

## Gwriad Safonol

Mae gwriad safonol yn mesur gwasgariad pwyntiau data mewn set ddata o amgylch y cymedr, neu'r cyfartaledd. Mae gwriad safonol isel yn dangos bod y pwyntiau data yn tueddu i fod yn agos at y cymedr, tra bydd gwriad safonol uchel yn dangos bod y pwyntiau data wedi'u gwasgaru dros ystod ehangach.

## Sampl Haenedig

Dull samplu lle rhennir y boblogaeth yn is-grwpiau neu haenau gwahanol, ac wedyn caiff samplau eu dewis ar hap o bob is-grŵp. Mae'r dull hwn yn sicrhau cynrychiolaeth o bob is-grŵp yn y sampl, gan ganiatáu ar gyfer dadansoddiad mwy cywir o nodweddion pob is-grŵp.

# Geirfa o dermau pwysig

## Cyfres Amser

Mae cyfres amser yn gyfres o bwyntiau data a gesglir neu a gofnodwyd ar adegau olynol. Mae data cyfresi amser yn aml yn cael ei ddadansoddi i nodi patrymau, tueddiadau ac amrywiadau tymhorol dros amser.

## Amrywiol

Nodwedd neu briodoledd a all amrywio a chael eu mesur, megis oedran.

## Amrywiad

Mesur ystadegol o wasgariad set o bwyntiau data o amgylch eu gwerth cymedrig. Mae'n meintioli faint mae'r pwyntiau data mewn set ddata yn wahanol i'r cymedr. Yn fathemategol, cyfrifir amrywiant yn gyfartaledd y gwahaniaethau sgwâr rhwng pob pwynt data a'r cymedr.

## Pwysiad

Mae pwysoli yn dechneg a ddefnyddir mewn dadansoddiad ystadegol i addasu cyfraniad gwahanol arsylwadau mewn sampl i'w gwneud yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth. Mae'n golygu rhoi pwysau gwahanol i arsylwadau yn seiliedig ar nodweddion neu ffactorau penodol.

